

CANLLAW I LLYWODRAETHWYR

AR

RÔL Y CADEIRYDD

Cynnwys

Tudalen

| | | |
|-----|--|----|
| 1. | Cyflwyniad | 2 |
| 2. | Rôl y corff llywodraethu | 2 |
| 3. | Rôl y cadeirydd | 2 |
| 4. | Bod yn gadeirydd | 4 |
| 5. | Diswyddo'r cadeirydd | 5 |
| 6. | Perthynas y cadeirydd â'r pennaeth | 6 |
| 7. | Y cadeirydd a'r corff llywodraethu | 7 |
| 8. | Gweithio gyda'r cler | 8 |
| 9. | Cynorthwyo datblygiad / hyfforddiant llywodraethwyr | 9 |
| 10. | Arddulliau arwain y cadeirydd | 11 |
| 11. | Arwain a rheoli gwaith y corff llywodraethu | 12 |
| 12. | Gwneud cyfarfodydd yn effeithiol | 14 |
| 13. | Cofnodion effeithiol | 15 |
| 14. | Gweithio gydag asiantaethau eraill i gefnogi gwelliannau yn yr ysgol | 16 |
| 15. | Dyletswyddau eraill | 16 |
| 16. | I gloi | 18 |

7. Y CADEIRYDD A'R CORFF LLYWODRAETHU

Er bod y cadeirydd yn aelod cyfartal o'r corff llywodraethu, mae'n cyfrannu'n allweddol at sicrhau bod y corff llywodraethu'n gweithio'n effeithiol. (Am ragor o wybodaeth, edrychwch ar y **Canllaw i Lywodraethwyr ar y Corff Llywodraethu Effeithiol**).

Mae'r mwyafrif o dimau yn gweithio'n fwy effeithiol os oes ganddynt arweinydd effeithiol. Bydd cadeirydd effeithiol yn sicrhau bod y corff llywodraethu a'i bwyllgorau yn cydweithio i gytuno ar gyfeiriad strategol ar gyfer yr ysgol, gweithredu fel y ffrind beirniadol, sicrhau atebolrwydd ar gyfer y safonau a gyflawnir ac ansawdd yr addysg a ddarperir. Fel hyn, gall y corff llywodraethu gynnal a gwella'r cyfleoedd addysgol a ddarperir ar gyfer ei ddisgyblion.

I wneud hyn, bydd angen i'r cadeirydd ddatblygu gwybodaeth dda am yr ysgol, deall a rhannu ei gwerthoedd a'i gweledigaeth a gwybod yn union beth yw ei blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r cadeirydd yn arwain y corff llywodraethu wrth gynorthwyo'r ysgol i gyflawni'r targedau y cytunir arnynt drwy sicrhau bod cyfarfodydd yn canolbwyntio ar strategaethau i wella'r ysgol. Cyfrifoldeb y pennaeth a'r staff yw rhoi'r cynlluniau a'r polisiâu ar waith o ddydd i ddydd.

Mae pob corff llywodraethu yn penderfynu sut bydd yn gweithio, a rolau ei aelodau. Er nad oes gan y cadeirydd lawer o bŵer, gall ddylanwadu'n sylweddol. Mae sut mae'r cadeirydd yn arwain y tîm yn effeithio ar ei holl aelodau. Gall cadeiryddion gyfrannu'n ddylanwadol at y corff llywodraethu drwy fod yn drefnus a deall pa mor effeithiol mae'r corff llywodraethu yn gweithio.

Effeithiolrwydd tîm

Mae'r corff llywodraethu yn cynnwys aelodau sydd wedi'u hethol neu eu henwebu. Mae aelodaeth y corff llywodraethu yn newid o bryd i'w gilydd. Yr her i'r cadeirydd yw cael y corff llywodraethu i gyflawni ei rôl mor effeithiol â phosibl.

O bryd i'w gilydd bydd gan y tîm gydbwysedd da o sgiliau ac arbenigedd ac ar adegau eraill ni fydd cystal cydbwysedd. Nid yw hyn yn golygu na all tîm o'r fath weithio'n effeithiol. Mae'n ddefnyddiol iawn i gadeirydd ddeall yr hyn sy'n gwneud tîm effeithiol er mwyn iddo allu annog 'ysbryd tîm'. Dylai geisio sicrhau bod:-

- amrywiaeth dda o sgiliau, profiad a gwybodaeth ymysg aelodau'r tîm a'u bod yn barod i'w cyfrannu a rhannu;
- gwybodaeth a sgiliau unigolion a'r tîm yn cael eu diweddarau'n barhaus drwy hyfforddiant a rhannu gwybodaeth;
- gwybodaeth arbenigol yn cael ei datblygu i sicrhau nad yw'n cael ei cholli pan fo pobl yn gadael;
- llwyth gwaith yn cael ei rannu a bod gwahanol bobl yn cymryd rôl arweiniol pan fo angen eu sgiliau neu eu harbenigedd penodol;
- aelodau yn herio'i gilydd mewn ffordd adeiladol - ymdrin yn gadarnhaol ag achosion o anghytuno;
- trafodaeth agored a bod safbwyntiau a barn pawb yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi;
- cyfrifoldeb fel grŵp am benderfyniadau a chymau gweithredu a gymerir. Nid oes unrhyw un yn gweithredu ar ran y tîm heb ganiatâd y tîm – mae *'un wyneb'* i'r gymuned;
- y tîm yn adolygu ei effeithiolrwydd a'i effeithlonrwydd ei hun yn systematig – *'A wnaethom y pethau iawn?'* *'A wnaethom y pethau iawn yn dda?'* a *'Beth sydd angen i ni ei newid i wneud pethau'n well?'*

STRWYTHUR PWYLLGOR CORFF LLYWODRAETHU MODEL AC ENGHREIFFTIAU O GYLCH GORCHWYL

Mae pwyllgor neu weithgor yn lle da i gyfnewid syniadau a chyflawni gwaith manylach y corff llywodraethu. Mae gwaith a wneir gan bwyllgorau yn ei gwneud yn bosibl i grwpiau bach drafod materion allweddol yn fanylach. Mae hefyd yn ffordd o rannu gwaith y corff llywodraethu fel bod y llwyth gwaith yn cael ei rannu. Efallai y gofynnir i chi fod yn aelod o un o'r grwpiau yma.

Gall y corff llywodraethu ddirprwyo unrhyw un o'i swyddogaethau i bwyllgor, unrhyw lywodraethwr neu'r pennaeth yn amodol i rai cyfyngiadau, fel y disgrifir yn Rheoliad 51 o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005¹. Lle mae'r corff llywodraethu wedi dirprwyo swyddogaeth, dydy hynny ddim yn atal y corff llywodraethu rhag ymarfer y swyddogaethau hynny. Rhaid i'r corff llywodraethu adolygu ymarferiad y swyddogaethau y mae wedi eu dirprwyo bob blwyddyn.

Mae'n ofynnol i gorff llywodraethu gael rhai pwyllgorau statudol ond bydd efallai yn dymuno sefydlu pwyllgorau eraill os yw yn mynd i weithredu'n effeithlon ac effeithiol.

Mae'r corff llywodraethu llawn yn gyfrifol am:

- (i) sefydlu pwyllgorau a phenderfynu ar eu cyfansoddiad, aelodaeth, cylch gorchwyl a phwerau dirprwyedig; ac
- (ii) adolygu'r rhain yn flynyddol.

Gellir cynnal yr adolygiad yma ar unrhyw adeg ond argymhellir ei gynnal yn y cyfarfod llawn cyntaf o'r corff llywodraethu yn nhymor yr Hydref. Rhaid cofnodi penderfyniadau yn ffurfiol yng nghofnodion y cyfarfod. Rhaid cael cworwm o'r corff llywodraethu pan fo pwyllgor yn cael ei sefydlu, neu pan fo newidiadau'n cael eu gwneud i'r aelodaeth ac i gylch gorchwyl pwyllgorau.

Gall llywodraethwyr benodi rhai nad ydyn nhw'n llywodraethwyr ar y rhan fwyaf o bwyllgorau (ac eithrio pwyllgor disgyblu a gwahardd disgyblion a'r pwyllgor derbyniadau lle mae'n berthnasol) cyn belled â bod y llywodraethwyr ar y pwyllgor bob amser yn y mwyafrif. Gall y corff llywodraethu llawn roi hawliau pleidleisio i'r aelodau o'r pwyllgor nad ydyn nhw'n llywodraethwyr ac eithrio ar bwyllgorau disgyblu a diswyddo staff lle na chaiff y rhai nad ydyn nhw'n llywodraethwyr bleidleisio, oni bai bod y pwyllgorau hynny yn delio gyda honiadau amddiffyn plant lle mae angen rhai nad ydyn nhw'n llywodraethwyr gyda hawliau pleidleisio llawn. Gall y pennaeth fynychu unrhyw gyfarfod o unrhyw bwyllgor ac eithrio lle mae'r rheoliadau yn nodi fel arall. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn Rhan 9 o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhalir (Cymru) 2005.²

Rhaid i'r corff llywodraethu benodi cadeirydd yn flynyddol i bob pwyllgor, neu ei ethol gan y pwyllgor yn ôl penderfyniad y corff llywodraethu. Os ydy'r cadeirydd yn absennol gall y pwyllgor ethol aelod o'r pwyllgor i weithredu fel cadeirydd i'r pwyllgor hwnnw. Ond ni chaiff aelodau o'r staff a disgyblion cofrestredig yn yr ysgol gadeirio pwyllgor.

Rhaid i bob pwyllgor statudol gael ei glercio a dylid adolygu penodiad clerc yn flynyddol. Er nad oes angen clercio pwyllgorau anstatudol rhaid cymryd cofnodion yn y cyfarfodydd hyn i sicrhau bod gan y corff llywodraethu gofnod cywir o'r trafodaethau, argymhellion a phenderfyniadau'r pwyllgorau hynny i adrodd yn ôl i'r corff llywodraethu llawn.

¹ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2005/2914/regulation/51/made/welsh>

² <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2005/2914/part/9/made/welsh>

RÔL STRATEGOL LLYWODRAETHWYR

Mae Llywodraethwyr Cymru wedi cynhyrchu sawl cyhoeddiad i gyrrff llywodraethu er mwyn cynorthwyo llywodraethwyr i gyflawni eu rôl yn effeithiol. Mae'r canllaw hon yn dwyn yr holl agweddau allweddol o rôl strategol y corff llywodraethu at ei gilydd mewn un ddogfen.

Mae cyrff llywodraethu ysgolion yn chwarae rôl allweddol mewn gwella safonau mewn ysgolion:

- mae ganddyn nhw ddyletswydd i hyrwyddo'r safonau uchaf o gyflawniad addysgol;
- rhaid iddyn nhw sefydlu fframwaith strategol yr ysgol; a
- rhaid iddyn nhw adolygu'n rheolaidd y cynnydd a wnaethpwyd.

Tair prif rôl y corff llywodraethu ydy:

1. **y rôl strategol**
2. **y ffrind beirniadol**
3. **y rôl atebol**

Mae'r rôl strategol, ynghyd â'r rôl ffrind beirniadol ac atebol, yn cyfrannu tuag at godi'r safonau a gyflawnir gan yr ysgol a'i dysgwyr. Mae llywodraethwyr yn cyflawni eu rôl strategol trwy ddarparu fframwaith ar gyfer yr hyn y maen nhw'n benderfynu y dylai'r ysgol ei gyflawni. Mae'r corff llywodraethu yn gweithio gyda'r pennaeth i:

- (i) gosod nodau ac amcanion ar gyfer yr ysgol;
- (ii) cytuno ar bolisiâu, targedau a blaenoriaethau i gyflawni'r amcanion hyn; a
- (iii) monitro a gwerthuso'r nodau a'r amcanion a gweld ydy'r polisiâu, targedau a blaenoriaethau yn cael eu diwallu.³

Gosod y nodau a'r amcanion ar gyfer yr ysgol

Man cychwyn ar gyfer cynllunio strategol ydy gweledigaeth sydd yn ei gwneud yn hawdd i'r staff a'r gymuned a wasanaethir gan yr ysgol ddeall yr hyn y mae'r ysgol yn ceisio ei gyflawni.

Dylai llywodraethwyr fod yn gwbl ymwybodol o'r rôl sylweddol y gall y corff llywodraethu ei chwarae o ran datblygu a chyflawni gweledigaeth, amcanion a thargedau eu hysgolion. Y corff llywodraethu sydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr ysgol yn cyflenwi'r cyfleoedd gorau posibl i bob plentyn, beth bynnag fo'u hoedran neu allu, i gyrraedd eu llawn botensial mewn amgylchedd ofalgar a diogel.

Unwaith y bydd y weledigaeth wedi'i chadarnhau, bydd y corff llywodraethu, y pennaeth a'r uwch staff yn penderfynu ar y strategaethau a'r gweithgaredd a fydd yn galluogi'r ysgol i ddatblygu tuag at hynny.

³ [Rheoliadau Cylch Gwaith Llywodraethu Ysgolion \(Cymru\) 2000](#)